

YSGRIFENNU DATGANIAD PERSONOL



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales


Beth yw Datganiad Personol ar gyfer addysgu?

Mae eich Datganiad Personol yn cael ei ddefnyddio i esbonio pam rydych chi eisiau bod yn athro a pha mor addas ydych chi ar gyfer y rôl honno. Tra bod eich ffurflen gais yn nodi eich cymwysterau, sgiliau a'ch profiad gwaith, drwy gynnwys eich Datganiad Personol bydd y cyflogwr yn dod i'ch abnabod chi fel person.



Pam bod Datganiad Personol yn bwysig?

- Eich Datganiad Personol yw eich cyfle cyntaf i greu argraff gadarnhaol ar y cyflogwr – y prifathro, staff yr ysgol a'r Llywodraethwyr. Felly, mae'n bwysig bod eich Datganiad yn gyfredol, yn glir ac yn nodi'n glir y rhesymau dros eich dyhead i fod yn athro.
- Mae Datganiad Personol da yn gyfle i chi wneud argraff gan roi mwy o gyfle i chi dderbyn gwahoddiad am gyfweiliad. Wrth gwrs, wrth dderbyn gwahoddiad am gyfweiliad, mae hyn yn cynyddu'r siawns am swydd.



Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Datganiad personol a llythyr i gefnogi'r cais?



- Mae rhai ysgolion yn gofyn am lythyr i gefnogi'r cais am swydd tra bod eraill yn gofyn am Ddatganiad Personol.

Ond, beth yw'r gwahaniaeth?



Llythyr i gefnogi'r cais ...

- Mae llythyr i gefnogi'r cais yn cael ei ysgrifennu ar ffurf llythyr ffurfiol.
- Mae angen i'r frawddeg gyntaf nodi pa swydd rydych chi'n ymgeisio amdani, ble wnaethoch chi weld yr hysbyseb, e.e. Hoffwn ymgeisio am swydd Athro CA2 a hybysebwyd yn ... ar ... (gan nodi'r dyddiad). Bydd angen cloi'r llythyr yn y dull cywir, e.e. Yr eiddoch yn gywir ...
- Bydd prif gynnwys y llythyr yr un peth â chynnwys eich Datganiad Personol.



Datganiad Personol ...

- Mae angen i'r Datganiad Personol gael ei ysgrifennu yn y person cyntaf.
- Mae angen i chi berswadio'r cyflogwr eich bod chi'n addas ar gyfer y swydd dan sylw.
- Mae'n rhaid i baragraff cyntaf eich Datganiad Personol ddal sylw'r darllenydd.
- Mae angen i'r paragraff clo gloi gyda datganaid cryf a chadarn.
- Weithiau, bydd gofyn i chi gynnwys y Datganiad Personol fel rhan o'r ffurflen gais. Bryd arall, bydd angen i chi ei gyflwyno ar wahân.



Beth sydd angen cynnwys yn y Datganiad Personol neu'r llythyr i gefnogi'r cais? ...

- Mae angen i chi nodi'r glir sut rydych chi'n cwrdd â gofynion hanfodol a dymunol y Manyleb Personol.
- Mae'n rhaid i chi brofi eich bod chi'n gwrdd â gofynion hanfodol y swydd cyn cewch chi eich ystyried am y swydd dan sylw.
- Rhaid i chi gynnwys PAM eich bod chi'n addas ar gyfer y swydd dan sylw. Rhaid i chi ddangos eich bod wedi gwneud ymchwil am yr ysgol dan sylw a sut mae eich cryfderau, eich sgiliau a'ch gwerthoedd yn cydfynd â gweledigaeth yr ysgol hon.
- Cofiwch ysgrifennu llythyr / Datganiad Personol unigryw ar gyfer pob swydd.



Ffederasiwn y Ddraig

Swydd Ddisgrifiad

Teitl y Swydd: Athro/awes Dosbarth

Yn atebol i : Pennaeth y Ffederasiwn a'r Pennaeth Mewn Gofal

Graddfa : Prif Raddfa

Cyfrifoldebau

Gweithredu cyfrifoldebau athro/athrawes dosbarth sef:

- I gydweithio a dilyn cyngor arweinyddion cwricwlwm.
- Gweithredu unrhyw welliannau a awgrymwyd yn y rhaglen o fonitro proffesiynol.
- Dangos dealltwriaeth dda o'r cwricwlwm yn ôl oedran a gallu'r plant.
- Bod â disgwyliadau personol uchel ac yn mynnu'r safonau uchaf posibl gan bob disgybl.
- Sicrhau amcanion dysgu clir a'u rhannu gyda'r plant.
- Cadw disgyblaeth yn y dosbarth yn ôl polisi disgyblu'r ysgol.
- Marcio gwaith y plant yn unol â'r amcanion dysgu a pholisi marcio'r ysgol.
- Sicrhau bod gwaith y dosbarth yn cael ei wahaniaethu'n gywir ar gyfer pob gallu.
- Rheoli'r dosbarth mewn modd sydd yn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i gyrraedd ei b'potensial.
- Asesu cyflawniad pob disgybl ymhob pwnc ar ddiwedd wythnos a nodi unrhyw dan gyflawniad neu gynnydd eithriadol.
- Gwneud defnydd o'r arfarniadau wrth gynllunio ar gyfer y disgyblion er mwyn sicrhau priodas rhwng y dasg olynol a chyflawniad y disgybl.
- Gweithio yn agos gyda'r cydlynnydd ADY, athrawon cefnogol a'r cynorthwyyr dosbarth wrth gynhyrchu, dosbarthu a derbyn cynlluniau unigol gan gofio fod pob athro dosbarth yn athrawon ADY.
- Gwneud cofrestr dosbarth ddwywaith y dydd.
- I baratoi plant ar gyfer gwasanaethau, cyngherddau a gweithgareddau eraill pan fo'n briodol.
- I arwain gwasanaethau adran yn eu tro os yw'r gofyn yn codi.
- I arolygu plant ar yr iard ac o amgylch yr ysgol.
- Paratoi adroddiadau ysgrifenedig i'r rhieni.

Swydd ddisgrifiad

- Mynychu'r nosweithiau agored i'r rhieni er mwyn trafod cynnydd y disgyblion.
- Cadw adnoddau'r dosbarth yn daclus a sicrhau bod yr ystafell ddosbarth yn ddeniadol ac yn hybu'r dysgu.
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal o fewn yr ysgol.
- Ar adegau, addysgu disgyblion mewn meysydd gwahanol o'r cwricwlwm ac mewn dosbarthiadau gwahanol, hyn i'w wneud o dan gyfarwyddyd yr UDRh a'r Pennaeth.
- Fel rhan o gytundeb y ffederasiwn, bod yn barod i addysgu dosbarth yn unrhyw un o ysgolion y ffederasiwn.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus – Personol

- Ar y cyd â'r rheolwr llinell, cymryd cyfrifoldeb am ddatblygiad proffesiynol personol, gan fod yn ymwybodol o waith ymchwil a datblygiadau mewn addysgeg ac unrhyw ddatblygiadau Cenedlaethol, a all arwain at welliannau mewn addysgu a dysgu.
- Ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad proffesiynol angenrheidiol fel y nodir yn y Cynllun Gwella Ysgol gan fanteisio'n llawn ar unrhyw hyfforddiant a datblygiad perthnasol sydd ar gael.
- Cynnal portffolio tystiolaeth proffesiynol i gefnogi'r broses Rheoli Perfformiad - gwerthuso a gwella ei ymarfer ei hun.

Corfforaethol

- Cymryd rhan weithgar wrth gefnogi egwyddorion ac arferion cyfleoedd cyfartal fel y'u nodir ym Mholisi Cyfleoedd Cyfartal y sefydliad.
- Cymryd gofal rhesymol o'ch iechyd a'ch diogelwch chi eich hun as iechyd a diogelwch pobl eraill, pe gallai'ch gweithredoedd neu'ch esgeulustod effeithio arnynt, a chydymffurfio a deddfwriaeth iechyd a diogelwch fel sy'n briodol.
- Fel un o delerau'ch cyflogaeth, efallai y bydd angen i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill a/neu weithio oriau eraill fel sy'n angenrheidiol a rhesymol, yn unol a gradd eich swydd neu'r lefel gyffredinol o gyfrifoldeb o fewn y sefydliad.

Manyleb Person – Ffederasiwn y Ddraig

Teitl y Swydd: Athro /Athrawes Dosbarth

RHAID I'R SAWL A BENODIR FODLONI'R GOFYNION CANLYNOL:

	Hanfodol	Dymunol
Cymwysterau	- Statws Athro Cymwys. - Cofrestriad CGA (neu gyfwerth) - Cofestru gyda Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)	- Gradd anrhydedd - Gradd uwch neu gymhwyster perthnasol cyfwerth - Cymwysterau ychwanegol a fyddai o fudd i'r ysgol
Gwybodaeth a Phrofiad	- Profiad llwyddiannus o addysgu a rheoli dosbarth yn y cyfnod cynradd a gwerthuso datblygiad plant - Gwybodaeth drylwyr o'r gofynion a'r datblygiadau newydd ym myd addysg - Gwybodaeth dda o asesu ac asesu ar gyfer dysgu, cofnodi, adrodd a gosod targedu - Gwybodaeth drylwyr o'r safonau proffesiynol newydd - Dangos disgwyliadau uchel mewn perthynas â safonau cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion - Gwybodaeth o'r defnydd effeithiol o ddata i werthuso, monitro a gwella'r addysgu a'r dysgu - Gwybodaeth o sut i ddatblygu annibyniaeth disgyblion a defnyddio sgiliau meddwl a sgiliau allweddol	- Profiad o addysgu amrywiaeth o oedrannau yn yr ysgol gynradd - Profiad o gydlynu pwnc / maes - Profiad o ymchwil gweithredol a gweithredu mewn cymuned ddysgu broffesiynol
Sgiliau Allweddol	- Athro/athrawes rhagorol - Y gallu i greu awyrgylch dysgu hapus a heriol yn y dosbarth - Sgiliau rheoli ymddygiad effeithiol - Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol ardderchog - Cymraeg a Saesneg cywir ar lafar	Medrau / diddordebau penodol ee cerddoriaeth, chwaraeon, celf, drama er mwyn cynnig cyfleoedd ychwanegol i'r disgyblion

Manyleb Person

	- ac ar bapur - Medrau TGCh da - Y gallu i gydweithio'n effeithiol ag eraill	
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus diweddar - Ymrwymiad at ddatblygiad proffesiynol - Y gallu i hunan fyfyrio am berfformiad a chymryd cyfrifoldeb dros ddatblygiad proffesiynol personol	
Priodoleddau Personol	- Disgwyliadau uchel; ymrwymiad i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni safonau uchel - Teimlo angerdd a balchder yn iaith, hanes a diwylliant Cymru a'r gallu i drosglwyddo hynny i'r disgyblion - Ymrwymiad i gyfle cyfartal a chreu ethos lle perchir yr unigolyn a lle gall pawb weithio'n effeithiol - Parodrwydd i ofyn am gyngor pan fo angen - Personoliaeth hawddgar gydag agwedd hyblyg - Cydnabyddiaeth a pharch tuag at holl gymuned yr ysgol - Parodrwydd i gefnogi gweithgareddau allgyrsiol yr ysgol	


Darparu tystiolaeth ...

- Mae darparu tystiolaeth i gefnogi pob safbwynt yn holl bwysig.
- Cofiwch sôn am esiamplau sy'n profi eich bod yn medru gwneud rhywbeth; neu enghreifftiau i brofi'r effaith gafodd profiad personol ar eich arfer chi fel athro neu ar ddatblygiad y disgyblion oedd yn eich gwersi.
- Gallwch ddefnyddio'r Fframwaith STAR i'ch cynorthwyo.



Pa mor hir ddylai'r Datganiad Personol fod?

- Does dim angen i Ddatganiad Personol fod yn hir iawn. Dydych chi ddim yn ysgrifennu aseiniad ar gyfer y Brifysgol.
- Mae dwy dudalen o faint A4 yn ddigon ar gyfer cyfleu eich neges.



Sut mae ysgrifennu'r Datganiad Personol ar gyfer y swydd a hysbysebhir?

- Dechreuwch gyda brawddeg agoriadol gryf a chadarn sy'n dal sylw'r darllenydd.
- Esboniwch pam bod y swydd hon a gyrfa mewn addysg yn apelio atoch chi.




Sut mae cynllunio fy Natganiad Personol?

- Darllenwch y Manyleb Person sy'n rhan o'r swydd ddisgrifiad.
- Defnyddiwch y Manyleb Person fel man cychwyn ar gyfer cynllunio cynnwys eich Datganiad Personol. (Os nad oes Manyleb Person yn gynwysedig gallwch edrych ar Safonau Athrawon a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth).
- Weithiau mae'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol yn darparu canllawiau manwl ar sut maent yn disgwyl i'r Datganiad Personol gael ei gyflwyno. Cofiwch ddilyn y canllawiau hyn.



Beth ddylwn i gynnwys?



Dechrau arni ...



- Mae angen i frawddeg gyntaf eich datganiad personol fod yn un cofiadwy ond heb fod yn or-ddramatig na chwaith yn ddi-fflach.
- Ffordd dda o ddechrau yw drwy rannu beth wnaeth eich hysbrydoli i fod yn athro.



Ymchwiliwch ...

- Cyfeiriwch at unrhyw gysylltiadau sydd gennych gyda'r Awdurdod Lleol neu'r ysgol.
- Soniwch am unrhyw ymweliadau wnaethoch chi â'r ysgol gan nodi'r hyn wnaeth greu argraff arnoch. Os nad ydych wedi cael cyfle i ymweld â'r ysgol gallwch wneud ymchwil pellach drwy ymweld â gwefan yr ysgol a darllen adroddiad Estyn mwyaf diweddar yr ysgol. Cofiwch sôn am unrhyw nodweddion arbennig sy'n berthnasol i'ch penodiad, e.e. crefydd.
- Yn ystod eich Datganiad Personol cofiwch rannu eich sgiliau a'ch cryfderau sy'n addas ar gyfer y swydd hon.



Pam? ...



- Pa gamau wnaeth arwain at eich penderfyniad chi i ddod yn athro?



Oes angen sôn am y cwrs gradd neu'r cwrs hyfforddi athrawon?

- Mae'n syniad da i sôn am sut mae'r cwrs hyfforddi wedi eich paratoi ar gyfer y rôl broffesiynol. Cofiwch sôn am eich diddordebau proffesiynol gan sicrhau eu bod nhw'n berthnasol i'r swydd hon.
- Cyfeiriwch at gynnwys eich cwrs hyfforddi – oed y disgyblion a addysgwyd, pynciau a addysgwyd ac unrhyw brofiadau ychwanwegol a gawsoch.
- Os ydych yn fyfyrwr T.A.R. cofiwch sôn am eich gradd gyntaf, eich traethawd ymchwil (os yn berthnasol) ac unrhyw ymchwil oedd yn ddosbarth-ganolog.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

Ymchwil ...

- Mae'n syniad da i gynnwys gwybodaeth am brosiectau ymchwil dosbarth-ganolog neu gynnwys aseiniadau penodol. Mae hyn yn ffordd dda o ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o addysgeg a'ch bod yn awyddus i barhau i ddatblygu'n broffesiynol.



Eich gweledigaeth am addysg gynradd / uwchradd ...

- Beth yw eich gweledigaeth addysgol?
Beth yw eich gobaith am y dyfodol?
Gallech sôn am ddulliau a strategaethau addysgu.
- Beth am adlewyrchu ar ddamcaniaethau a pholisiau cyfredol sy'n addas ar gyfer y swydd benodol hon?



Nodweddion personol ...



- Pa nodweddion personol sydd gennych fydd yn eich gwneud yn athro da? Cofiwch gynnwys enghreifftiau o sefyllfaoedd lle mae'r nodweddion hynny wedi bod yn fantais yn enwedig yn ystod eich Profiad Addysgu Proffesiynol.



Profiad Addysgu Proffesiynol ...

- Pa grwpiau oedran rydych chi wedi eu haddysgu?
- Pa bynciau rydych chi wedi eu haddysgu?
- Cyfeiriwch at eich dealltwriaeth o asesu ffurfiannol ac o asesu crynodol.



Fl yn y dyfodol

- Cyfeiriwch at y math o athro yr hoffech chi fod. Gallwch sôn am eich gweledigaeth a sut fydd hyn yn effeithio ar eich arfer.
- Soniwch am sut mae eich gweledigaeth wedi ei datblygu. Gallwch gyfeirio at sut mae plant yn dysgu, rheolaeth dosbarth a dulliau addysgu a dysgu.




Rheoli dosbarth

- Cyfeiriwch at wersi wnaethoch chi eu cynllunio, eu monitro a'u gwerthuso o ran yr amcanion dysgu. Gallech gyfeirio at wahaniaethu.
- Cyfeiriwch at sut rydych chi'n rheoli ymddygiad yn y dosbarth. Cofiwch sôn am esiamplau.
- Soniwch am sut rydych chi wedi cydweithio gyda chymorthyddion dosbarth yn ogystal â rhieni.




Rhoi adborth

- Rhannwch eich profiadau am farcio, am werthuso a chynnig adborth gan gofio cyfeirio at enghreifftiau penodol.



Cyswllt gyda rhieni

- Pam fod cael cyswllt gyda rhieni yn bwysig?
Beth ydy effaith hyn?



Dysgu ar y cyd

- Ydych chi wedi cael profiad o ddysgu ar y cyd?
- Beth oedd effaith hyn ar eich arfer?
- Beth oedd effaith hyn ar y dysgu?



Gwahaniaethu

- Cyfeiriwch at esiamplau o wersi lle wnaethoch chi gynnig her ychwanegol i ddisgyblion ac yn yr un modd gynnig cymorth ychwanegol i ddisgyblion eraill.
- Cofiwch ateb y cwestiwn: Sut ydych chi'n sicrhau bod eich dosbarth chi yn ddosbarth cynhwysol?



Cynllunio gwersi

- Mae rhannu gwybodaeth am eich profiad addysgu yn ffordd dda i'r cyflogwr ddeall eich dealltwriaeth o beth sy'n cyfrannu at addysgu a dysgu llwyddiannus.
- Cofiwch sôn am yr oed dysgu, maint y grwpiau ac unrhyw nodweddion arbennig.
- Rhannwch wybodaeth am y ffordd rydych chi'n cynllunio, addysgu, monitro a gwerthuso'r amcanion dysgu.



Beth am brofiadau gwaith eraill?

- Cyfeiriwch at sgiliau rydych chi wedi eu dysgu drwy gyfrwng addysg a phrofiadau eraill fydd yn cyfrannu at eich llwyddiant fel athro. Gallwch sôn am unrhyw brofiadau allgyrsiol rydych chi wedi eu profi, e.e. cynorthwyo gyda gweithgareddau'r Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifainc, clybiau ieuenctid, Brownies, a.y.y.b
- Cofiwch gynnwys sgiliau eraill fydd yn medru cael eu hystyried, e.e. ydych chi'n gerddor? Ydych chi'n arlunydd? Ydych chi'n athletwr? Ydych chi'n ffotograffydd? a.y.y.b. A fyddai'r sgiliau hyn yn dylanwadu ar y profiad addysgu a dysgu ar lawr dosbarth?



Dylwanwadau diweddaraf ar eich addysgu a'ch dosbarth ...

Crëwyd gan @ImpactWales


Hawlfraint © 2018

4 DIBEN Cwricwlwm i Gymru

Pam bod angen 4 Diben arnom?

- * er mwyn i bob athro ac arweinydd ddilyn cenhadaeth gytûn.
- * er mwyn gosod gweledigaeth gytûn ar gyfer dyheadau ein disgyblion.

Wrth ymrwymo i'r 4 diben bydd athrawon yn deall a chydweddu â gweledigaeth gytûn ar gyfer addysg yng Nghymru.



Sut y dylem ddefnyddio'r Dibenion fel canllaw wrth ddewis cynnwys y cwricwlwm.

* fel fframwaith wrth ddewis yr addysgeg fwyaf addas

Wrth wneud dewisiadau am gynnwys, addysgeg ac asesu bydd defnydd y 4 diben yn datblygu ein system o welliant parhaus.

Ategwyd 4 Diben Cwricwlwm i Gymru gan:

Egwyddorion a gortfformyd yng nghytundeb y CENHEDLOEDD UNEDIG ar Hawliau'r Plentyn	Iaith a Diwylliant Cymreig	Egwyddorion addysg gynhwysol	Rôl gymunedol a dinesig ysgolion	Techyd a lles disgyblion
--	----------------------------	------------------------------	----------------------------------	--------------------------

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES



Canllawiau Cwricwlwm i Gymru



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

Cyngor da wrth brifathrawon profiadol

...

- Cyn cyflwyno eich llythyr / Datganiad Personol cofiwch ei brawf ddarllen. Gall gwallau sillafu, atalnodi neu ramadegol ddylanwadu ar eich llwyddiant yn y cais am swydd.
- Ysgrifennwch Ddatganiad Personol sy'n bersonol ar gyfer y swydd honno. Peidiwch âg anfon Datganiad cyffredinol.
- Peidiwch â chynnwys datganiadau cyffredinol sydd heb enghreifftiau dilys – mae hyn yn hollol ddi-bwrpas.
- Rhaid cynnwys enghreifftiau i gefnogi pob pwynt.
- Soniwch am eich cryfderau mewn modd di-dwyll ac onest.
- Ystyriwch safbwynt y prifathro: Am beth fydd e neu hi yn chwilio?



Barod?



HELP LLAW: Ysgrifennu Datganiad Personol



CYNNWYS	RHAI YMADRODDION DEFNYDDIOL
Paragraff agoriadol cryf: Pam fod y swydd / y rôl / addysgu'n apelio? Yn eich rôl fel athro, beth sy'n eich diddori?	- Cefais fy vsbrddolj... - Dechreuodd fy niddordeb ... - O oed cynnar iawn, roedd - Cefais brofiad - At y cwrs, rydw i wedi - Drwy ddilyn cwrs gradd mewn - Fy arbenigedd yw ... - Yn ystod y cwrs rydw i wedi astudio / dysgu / profi / gweld / cael - Tra yn yr ysgol ... - Yn ystod y Profiad Dysgu Proffesiynol cyntaf ... - Credaf ... - Dysgais ... - Hoffais ... - Ymddidoriais mewn ... - Mae modwl ... wedi dylanwadu ar ... - Mae gen i ddiddordeb ... - Mewn gwers dda rhaid ... - Un o bethau hanfodol - Un llwyddiant oedd ... - Yn ychwanegol ... - Hefyd ... - Yn ogystal â - Yn y dyfodol, hoffwn i... - Yn y dyfodol, bwriadaf - Yn y dyfodol, carwn gael y cyfle ...
Gwybodaeth gefndirol: Sut mae eich cwrs hyfforddi wedi eich paratoi ar gyfer y swydd hon?	
Gwybodaeth am eich Profiadau Dysgu Proffesiynol: - Ffocws ar addysgeg; - Eich gweledigaeth; - Addysgu a dysgu – monitro'r amcanion dysgu - Dosbarth cynhwysol - Cyd-destun y Cwricwlmwm	
Nodweddion pwysig i'w cofio yma: - Cynnwys esiamplau - Beth sy'n berthnasol i'r swydd hon? (e.e. Maes arbenigedd)	
Diddordebau academiaidd: - Cynnwys ymchwil - Diddordeb academiaidd sydd wedi datblygu yn ystod y cwrs hyfforddi	
Llwyddiannau Personol / agweddau ar addysgu a dysgu: - Gwers / cyfres o wersi llwyddiannus – Pam? Beth ddysgoch chi o'r profiad? Cofiwch sôn am esiamplau penodol. - Adborth gan gyd-weithwyr / menotriaid / tiwtoriaid	
Sgiliau ychwanegol: Sgiliau, diddordebau, hobiau, profiadau addas / ychwanegol, cymhwysterau ychwanegol	
Yr Ysgol / Yr Ardal: - Beth sydd gennych chi i'w cynnig i'r adral / awdurdod lleol / ysgol hon? - Profwch eich bod wedi gwneud eich gwaith ymchwil o flaen llaw.	
Paragraff clo: - Crynodeb o'ch gweledigaeth - Pam ydych chi'n addas i'r swydd hon?	Geiriau allweddol i'w cynnwys: - addysgu - dysgu - addysgeg - her - cefnogaeth - cynhwysol - profiad - er enghraifft - Cwricwlm i Gymru - Y Pedwar Diben - fy ngweledigaeth



Gwefannau defnyddiol ...



- **Prospects:**
<https://www.prospects.ac.uk/careers-advice/applying-for-jobs/write-a-successful-job-application#top>
- **Targetjobs: Personal statements for teaching jobs** (targetjobs.co.uk)



Eich tro chi ...



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales